EDC-10-99 (p.9)

# PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD: POLISI CYD-SODDI

## Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i aelodau'r pwyllgor yngln â chynigion yr Adran Diwydiant a Masnach ar ddiwygio'r broses o gyd-soddi.

## Cefndir

2. Mae cynigion yr Adran Diwydiant a Masnach, fel y'u hamlinellir yn ei dogfen ymgynghorol, (safle rhyngrwyd http://www.dti.gov.uk/CACP/cp/mergercon/index.htm), yn nodi y dylai Gweinidogion, ymwrthod â gwaith achos yn ymwneud â chyd-soddi a gadael i'r awdurdodau cystadlu - megis y Swyddfa Masnachu Teg a'r Comisiwn Cystadlu er enghraifft - ysgwyddo'r penderfyniad terfynol (er y byddai hyn yn amodol ar apêl annibynnol). Gellid gwneud eithriadau mewn achosion lle byddai materion eraill o ddiddordeb cyhoeddus mwy cyffredinol yn berthnasol. Mewn achosion o'r fath y Gweinidogion fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol. Byddai'r materion hyn yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol, y diwydiant dr a lluosogrwydd y cyfryngau. Fodd bynnag, byddai'r cynigion yn ei wneud yn bosibl i greu materion eraill a fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd, a hynny drwy offeryn Statudol yn amodol ar Benderfyniad Cadarnhaol. Fel arall, byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â meini prawf cystadlu technegol cyfyng.

## Ystyriaethau

3. Bwriedir i'r cynigion hyn egluro peth ar y broses o gyd-soddi a rhoi sicrwydd felly i'r gymuned fusnes yngln â'r modd y byddid yn delio ag achosion arfaethedig o gyd-doddi.

4. Nid yw swyddogion y Cynulliad fel arfer yn delio â mwy na dau neu dri o achosion o gyd-soddi y flwyddyn. Mewn rhai achosion byddwn yn dymuno lleisio barn, fel rheol mewn perthynas â materion sydd o ddiddordeb cyhoeddus ehangach, yn enwedig goblygiadau'r hyn a gynigir o safbwynt cyflogaeth yng Nghymru. Ni fyddai'n arferol inni ddarparu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â chystadleuaeth gyfyng, er mae'n bosibl y byddwn yn gallu gwneud hynny yn achos cystadleuaeth leol.

5. Mae'r Adran Diwydiant a Masnach wedi nodi yn ei dogfen ymgynghori y bydd awdurdodau cystadleuaeth yn parhau i ystyried pob safbwynt perthnasol yn llawn, gan gynnwys safbwyntiau Gweinyddiaethau datganoledig lle bo ganddynt fuddiannau.

## Cydymffurfio

6. Nid yw'r mater hwn wedi ei ddatganoli. Nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau mewn perthynas â'r polisi cyd-soddi.

**Gweithredu**

7. Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y papur hwn.

**Cyswllt**

8. Mr Allan Moss, Adran Polisi Diwydiant a Hyfforddiant Estyniad 3385